# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 2**

Y DRETH A GWAREDIADAU TRETHADWY

**PENNOD 3**

GWAREDIADAU ESEMPT

## 11 Mynwentydd anifeiliaid anwes

(1) Mae gwarediad deunydd yn esempt rhag treth—

(a) os yw'n warediad deunydd sy'n weddillion anifeiliaid anwes meirw (ac unrhyw gynhwysydd neu ddeunydd y cynhwysir y gweddillion ynddo), a dim arall, a

(b) os y'i gwneir ar safle tirlenwi awdurdodedig sy'n bodloni'r amod yn is-adran (2).

(2) Yr amod yw na wnaed unrhyw warediadau tirlenwi ar y safle yn ystod y cyfnod perthnasol, heblaw am warediadau deunydd sy'n weddillion anifeiliaid anwes meirw (ac unrhyw gynhwysydd neu ddeunydd y cynhwysir y gweddillion ynddo), a dim arall.

(3) Y cyfnod perthnasol yw'r cyfnod—

(a) sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r adran hon i rym, neu â'r diwrnod y daw'r safle yn safle tirlenwi awdurdodedig, pa un bynnag yw'r diweddaraf, a

(b) sy'n dod i ben yn union cyn y gwarediad a grybwyllir yn is-adran (1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 11 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 11.